**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Iau 22ain Hydref 2020, 10.00-12.00**
**Telegynhadledd**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol** | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Keith Meredith | Rheolwr Grwp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Andrew Robinson | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Alun Michael | Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru (HDC) |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru |
| Wendy Gunney | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Ebed Akotia | Rheolwr Gwirfoddolwyr C3SC |
| Gareth Newell | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Len Richards | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Jo Salway | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Nathan Swain | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Clive Bailey | Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Anne Wei | Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF |
| Lee Patterson | Uwch Swyddog Ieuenctid – Rhaglen Dinas Sy'n Dda i Blant |
| Gareth Harcombe | Rheolwr Gweithredol Ynni a Chynaliadwyedd, CC |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1/2 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 21ain Medi 2020 a darparodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn camau gweithredu. | |
| 3. | **Ymateb BGC Caerdydd i Argyfwng Hinsawdd**<br><br>Darparodd Gareth Harcombe, Rheolwr Ynni a Chynaliadwyedd Cyngor Caerdydd, drosolwg o 'Un Blaned Caerdydd: Ein gweledigaeth ar gyfer Dinas Carbon Niwtral erbyn 2030'.<br><br>Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd gan bartneriaid y BGC rôl allweddol yn y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd gyda chyfleoedd awgrymedig ar gyfer cydweithredu:<br>• Asedau tir<br>• Caffael Cylchol<br>• Symudiad<br>• Cynllunio Ynni Ardal Leol<br>• Dad-fuddsoddi<br>• Rhagnodi cymdeithasol<br><br>Cytunodd aelodau'r BGC i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dull unedig o ymdrin ag 'Un Blaned Caerdydd' a chroesawodd gynnwys cwmnïau cyfleustodau a'r byd academaidd lleol yng ngwaith y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd. | |
| 4. | **Diweddariad COVID-19**<br><br>Rhoddodd Fiona Kinghorn drosolwg o'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer Covid-19 yng Nghaerdydd, gan nodi bod y rhan fwyaf o achosion yn cael eu gyrru gan y boblogaeth 17-24 yng Nghaerdydd. Mae rhai achosion yn cael eu gweld mewn cartrefi gofal ac ysbytai ond ystyrir bod y sefyllfa'n sefydlog.<br><br>Tynnwyd sylw at negeseuon allweddol o Adroddiad Cell Ymgynghorol Technegol Llywodraeth Cymru: Coronafeirws (COVID-19) ac Anghydraddoldebau Iechyd - yr angen i ddiogelu ein poblogaeth fwyaf difreintiedig rhag effeithiau uniongyrchol Covid-19 ond hefyd rhag yr effeithiau anuniongyrchol ar yr economi a fydd yn cynyddu anghydraddoldebau iechyd yn y tymor hwy.<br><br>Rhoddwyd cyfle i bob sefydliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu hymateb i'r cyhoeddiad o ran y cyfyngiadau cyfnod atal byr:<br><br>Cafwyd trafodaeth ar reoli'r broses o drosglwyddo allan o'r cyfyngiadau cyfnod atal byr o 9 Tachwedd ymlaen. Mae Heddlu De Cymru yn disgwyl | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | elfen o flinder cydymffurfio. Croesawyd barn partneriaid y BGC i fwydo i mewn i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. | |
| **5.** | **Caerdydd sy'n Dda i Blant - Profiadau plant a phobl ifanc yn ystod COVID-19**<br><br>Rhoddodd Lee Patterson, Uwch Swyddog Ieuenctid, Rhaglen Dinas sy'n Dda i Blant, drosolwg o brofiadau plant a phobl ifanc yn ystod pandemig Covid-19.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Cynnal dadansoddiad gofodol er mwyn mapio ymatebion i ble mae ymatebwyr yn byw, gyda'r bwriad o nodi a yw profiadau negyddol yn gysylltiedig â lefelau amddifadedd. Nododd Canolfan Ymchwil Caerdydd ei bod yn gallu cynorthwyo gyda'r gwaith hwn<br>• Ymatebion i'w cymharu â data a gadwyd cyn pandemig Covid-19<br><br>**Cyllid Atal a'r Blynyddoedd Cynnar**<br><br>Rhoddodd Fiona Kinghorn y wybodaeth ddiweddaraf am ddyrannu cyllid Atal a'r Blynyddoedd Cynnar. | Lee Patterson / Canolfan Ymchwil Caerdydd<br><br>Lee Patterson |
| **6.** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd - Ailddychmygu Heneiddio yn y Dyfodol**<br><br>Cyflwynodd Fiona Kinghorn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2019, gan nodi bod y cyhoeddiad wedi'i ohirio gan bandemig Covid-19.<br><br>Tynnwyd sylw at feysydd allweddol lle gall aelodau'r BGC gyfrannu fel a ganlyn:<br>• Hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n ystyriol o oedran ar draws gwasanaethau cyhoeddus<br>• Mapio'r ffactorau risg ar gyfer unigrwydd ac unigedd ac adnabod ardaloedd daearyddol i dargedu ymyriadau ledled Caerdydd a Bro Morgannwg<br>• Cefnogi'r rhai sydd â lefelau isel o lythrennedd digidol drwy ymwneud â'r prosiect Cymunedau Digidol gan dargedu'r rhai sydd â'r angen mwyaf am gymorth.<br>• Llofnodi'r Siarter Cynhwysiant Digidol a gweithredu ei chwe egwyddor<br>• Gweithredu egwyddorion 'Cymunedau sy'n Ystyriol o Oedran'<br><br>Cafwyd trafodaeth ar sut i fynd i'r afael ag unigrwydd mewn modd sy'n ddiogel rhag Covid. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | **CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Dulliau o fynd i'r afael ag unigrwydd, gan gynnwys gwarchod grwpiau, i'w hadolygu o ganlyniad i effeithiau penodol Covid-19.<br>• Partneriaid BGC i gefnogi a hyrwyddo arolwg Holi Caerdydd a fydd yn llywio dadansoddiad o dueddiadau o ran unigrwydd ac unigedd cyn ac yn ystod pandemig Covid-19.<br>• Canlyniadau a dadansoddiadau Holi Caerdydd i fod yn eitem agenda BGC yn y dyfodol | Fiona Kinghorn<br><br>Partneriaid BGC<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| **7**. | **Adroddiad Blynyddol BGC 2019/20**<br><br>Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y BGC i'w gyhoeddi. | Ysgrifenyddiaeth |
| | **Unrhyw fusnes arall**<br><br>**Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol**<br><br>Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad gan y Bwrdd Arwain Diogelwch Cymunedol.<br><br>**Edrych tua'r Dyfodol**<br><br>Papur briffio Cyfrifiad 2021 i fod ar agenda'r BGC nesaf, 1 Rhagfyr 2020. | Ysgrifenyddiaeth |
| | **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:**<br><br>BGC Caerdydd - 1 Rhagfyr | |